## Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

## Ymgynghoriad ar ddata anghenion dysgu ychwanegol

## Fersiwn un, dyddiad: Gorffennaf 2025

# ADRAN 1

## Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

### Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diweddaru data i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol ddata perthnasol, priodol ac ystyrlon am y system ADY.

Mae'r system ADY yn seiliedig ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY Cymru 2021, sy'n amlinellu'r dyletswyddau statudol ar gyfer awdurdodau lleol a lleoliadau addysg. Cyflwynir y system hon erbyn mis Awst 2025, yn dilyn dull cyflwyno graddol dros bedair blynedd rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2025. Mae'r system yn cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru rhwng 0 a 25 oed sydd ag ADY. Mae'n disodli'r system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r system ar gyfer cefnogi pobl ifanc ag anawsterau neu anableddau dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu system addysg gynhwysol lle mae dysgwyr o bob math, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn cael eu cefnogi i gael mynediad at addysg o ansawdd uchel mewn ysgolion a gynhelir, a chyfranogi'n llawn mewn addysg o'r fath. Mae hyn yn cynnwys newid i'r system ADY ynghyd â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru sy'n ceisio dileu rhwystrau i'r holl ddysgwyr a sicrhau bod gan athrawon fwy o hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol pob dysgwr. Caiff y rhain eu hategu gan ddull ysgol gyfan o gefnogi iechyd meddwl a llesiant meddyliol.

Er mwyn cyflawni ei rôl a'i swyddogaethau craidd, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn data personol a data categori arbennig am blant a phobl ifanc yn uniongyrchol gan ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol fel rhan o brosesau casglu data statudol, fel y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a'r Cyfrifiad Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY). Mae'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth am AAA neu ADY plentyn neu berson ifanc. Mae Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y prosesau casglu data hyn gan gynnwys pa ddata y mae Llywodraeth Cymru yn ei

dderbyn, y sail gyfreithlon dros gasglu'r data, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'r data.

Gwnaed rhai diwygiadau cychwynnol i'r Cyfrifiad CYBLD ac AHY cyn blwyddyn academaidd 2021/22 er mwyn helpu i gyflwyno'r system ADY. Er enghraifft, cyflwynodd Llywodraeth Cymru godau ar gyfer lleoliadau a gynhelir er mwyn cofnodi a oes gan ddisgybl Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan ysgol neu CDU a gynhelir gan awdurdod lleol. Fodd bynnag, penderfynwyd cadw'r rhan fwyaf o feysydd sy'n gysylltiedig ag AAA er mwyn osgoi newidiadau lluosog yn ystod y cyfnod pontio. O ganlyniad, mae'r casgliadau data presennol yn parhau i fod yn seiliedig i raddau helaeth ar y fframwaith deddfwriaethol AAA.

## Cam Gweithredu Arfaethedig

Mae angen ystod o wybodaeth ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol fel ysgolion ac awdurdodau lleol i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY er mwyn iddynt gyflawni eu llawn botensial, yn ogystal â monitro, gwerthuso a gwella'r system ADY. Mae hyn yn cynnwys data am blant a phobl ifanc ag ADY, y cymorth a dderbyniant, a data am gyflwyno'r system ADY.

Mae angen diweddaru'r data ADY sy'n cael ei gofnodi gan ysgolion ac awdurdodau lleol, a'i rannu â Llywodraeth Cymru, fel ei fod yn cyd-fynd â pholisi a deddfwriaeth ADY. Rydym yn cynnig diweddaru data er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol ddata perthnasol, priodol ac ystyrlon am y system ADY fel y gellir:

- monitro perfformiad y system ADY a'i chanlyniadau, gan sicrhau ei bod yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc a bod modd ei gwella yn barhaus
- deall i ba raddau y mae dyletswyddau o dan y fframwaith deddfwriaethol ADY yn cael eu cyflawni
- llywio penderfyniadau cynllunio strategol a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- galluogi rhanddeiliaid i gyflwyno a rheoli'r ddarpariaeth orau bosibl yn effeithiol er mwyn cefnogi eu dysgwyr
- darparu gwybodaeth ac adroddiadau ystyrlon am ADY er budd y sector addysg a rhanddeiliaid

Mae'r cynigion data rydym yn ymgynghori arnynt yn sylfaen i'r dull system o gydweithio, gweithio mewn partneriaeth a darparu cymorth sy'n cyd-fynd â'r dull o ddefnyddio data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwella addysg. Mae ein cynigion yn cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar y defnydd o ddata ysgolion a dysgwyr i gefnogi dysgu a gwelliant, a byddant yn galluogi rhanddeiliaid i gofnodi a defnyddio data:

- sydd ei angen arnynt i gyflawni eu swyddogaethau a chefnogi ymdrechion y gweithlu i sicrhau'r gorau ar gyfer dysgwyr
- sy'n ystyrlon i'r system ADY a'r broses o'i chyflwyno

Dylai'r data a gesglir gennym fod â diben clir a chefnogi a gwella dealltwriaeth heb roi beichiau ychwanegol diangen ar y gweithlu. Hefyd, dylai wella'r broses o gasglu a hunanwerthuso data ar gyfer y sector.

**Hirdymor**

Bydd monitro tueddiadau hirdymor sy'n deillio o'r system ADY trwy'r set ddata arfaethedig hon yn llywio'r gwaith o lunio polisïau, deddfwriaeth, ymarfer a gofynion cyllido yn y dyfodol. Y nod yw cael effaith hirdymor ar blant a phobl ifanc ag ADY.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu set ddata ADY arfaethedig, mae swyddogion wedi ystyried y data sydd ei angen, ochr yn ochr â ffynonellau tystiolaeth ehangach, er mwyn monitro canlyniadau tymor byr, tymor canolig a hirdymor y system ADY, fel y'u nodwyd yn y Gwerthusiad o'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol: Adroddiad Cwmpasu gan gwmni Ymchwil Arad. Wrth gasglu'r wybodaeth hon trwy ddefnyddio casgliadau data statudol, bydd modd sicrhau bod gennym ddata cynhwysfawr o ansawdd uchel i fonitro tueddiadau a gwahaniaethau mewn gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r system ADY dros amser. Bydd monitro tueddiadau hirdymor sy'n deillio o'r system ADY yn llywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol er mwyn gwella arferion a deilliannau dysgwyr ag ADY.

Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio cynnwys eitemau data ADY newydd yn y systemau rheoli gwybodaeth o fis Medi 2026 ymlaen. Y bwriad yw diwygio casgliadau data CYBLD ADY o fis Medi 2026 ymlaen er mwyn helpu i gynllunio darpariaeth.

**Atal**

Mae adnabod ADY yn gynnar a chyflwyno ymyriadau yn amserol yn ganolog i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag ADY yn gallu llwyddo a chael mynediad at addysg sy'n diwallu eu hanghenion. Bydd diwygiadau i'r prosesau casglu data yn cynorthwyo cynllunio strategol a monitro effeithiol er mwyn hwyluso ymyriadau cynnar, amserol a phriodol sy'n adlewyrchu anghenion dysgwyr.

**Integreiddio**

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i wella deilliannau i ddysgwyr ag ADY, ac mae wedi'i integreiddio â blaenoriaethau'r llywodraeth ym meysydd addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a llywodraeth leol. Mae'n cyd-fynd â nodau llesiant Cymru sy'n fwy cyfartal a Chymru lewyrchus. Trwy wella

ansawdd a pherthnasedd data ADY, bydd y newidiadau yn helpu i wella gwaith cynllunio, cyllido a darparu gwasanaethau ym meysydd addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, bydd y casgliadau data diwygiedig yn cyfrannu at agendâu trawsnewid digidol a gwaith llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â thimau polisi a data mewnol ac mae'n cyd-fynd ag amcanion strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg. Hefyd, mae'n cefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy hwyluso data mwy cywir ar lefel leol ynghylch anghenion dysgwyr.

**Cydweithio a Chyfranogi**

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu set ddata ADY arfaethedig, ymgysylltodd Llywodraeth Cymru ag awdurdodau lleol, cynrychiolaeth fechan o ymarferwyr ysgol gan gynnwys Cydlynwyr ADY (CADY) a chynrychiolwyr ysgolion, Estyn ac adrannau perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

Dangosodd y broses ymgysylltu fod heriau yn bodoli o ran y data presennol. Nododd fod angen sicrhau bod y data yn cyd-fynd â'r system ADY a'i fod yn cefnogi cynlluniau strategol awdurdodau lleol ac ysgolion. Yn ystod y broses ymgysylltu, cafwyd awgrymiadau am sut i sicrhau y gallai’r data gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol yn well i fonitro a gwella'r system ADY a darpariaeth i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu potensial. Hefyd, nododd fod angen data cynhwysfawr a chywir i gefnogi gwaith partneriaid, megis Estyn, i gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Ein bwriad yw cynnal rhagor o waith ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn derbyn adborth ar y cynigion, yr effaith ar lwyth gwaith ymarferwyr ysgol ac awdurdodau lleol, a dewisiadau cyflawni i sicrhau bod y set ddata derfynol yn ymarferol, yn gymesur ac yn cyd-fynd ag anghenion gweithredol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau nad yw'r casgliadau diwygiedig yn creu beichiau diangen a bod rhanddeiliaid yn derbyn cymorth trwy gyfrwng canllawiau a hyfforddiant clir.

Bydd yr ymgynghoriad yn darparu mwy o gyfleoedd i randdeiliaid ehangach ddarparu adborth ar y data ADY a gynigir. Yn bwysig, bydd yn gyfle i ofyn am farn dysgwyr y mae Llywodraeth Cymru yn derbyn gwybodaeth amdanynt, eu rhieni a'u gofalwyr. Byddwn yn darparu fersiynau hygyrch o'r ymgynghoriad ac rydym yn archwilio opsiynau ystyrlon i ymgysylltu â dysgwyr ag ADY.

**Effaith**

Mae diweddaru'r data ADY yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y data yn cyd-fynd â'r system ADY a bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyfrifol, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ysgolion, yn gallu cynorthwyo dysgwyr ag ADY i gyflawni eu llawn botensial a monitro, gwerthuso a gwella'r system ADY.

Effaith ar ddysgwyr

Rhagwelir y bydd cyflwyno'r data ADY a gynigir yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc gan y bydd yn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru, ysgolion ac awdurdodau lleol yr wybodaeth gywir i gefnogi dysgwyr ag ADY i gyflawni eu llawn botensial, yn ogystal â monitro, gwerthuso a gwella'r system ADY.

Bydd yn ceisio darparu rhywfaint o dystiolaeth i wella prosesau deall a gwerthuso, er enghraifft:

- i ba raddau y mae system ADY ddwyieithog ar waith, ac effaith system ADY ddwyieithog ar gefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial
- sut mae'r dull aml-asiantaeth yn cael ei weithredu a sut y gallai effeithio ar lwyddiant ac ymgysylltiad dysgwyr ag addysg
- i ba raddau y mae anghenion dysgwyr mewn 'dosbarthiadau arbennig' yn cael eu diwallu, a deilliannau'r dysgwyr hyn
- yr adnoddau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ag ADY ledled Cymru, a'r galw a'r capasiti ledled y system
- a yw'r system yn gweithio mewn ffordd deg ac effeithiol, ac asesu dichonoldeb amserlenni statudol, a sut maen nhw'n effeithio ar ddeilliannau dysgwyr

Bydd y newidiadau a gynigir i brosesau casglu data ADY statudol hefyd yn hwyluso dealltwriaeth fwy gronynnog a chynhwysol o brofiadau dysgwyr ar draws grwpiau amrywiol. Bydd cyflwyno data ar lefel unigolyn, er enghraifft, ar benderfyniadau a darpariaeth ADY, yn cael effaith gadarnhaol anghymesur ar blant a'u teuluoedd sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol, rhai plant ethnig leiafrifol, plant anabl, plant iau, merched a bechgyn. Bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i fonitro sut mae dysgwyr ADY o'r grwpiau gwahanol hyn sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu nodi a'u cefnogi yn y system ADY. Trwy wella gwelededd fel hyn, bydd modd cefnogi ymdrechion i nodi gwahaniaethau rhwng mynediad at gymorth a sicrhau bod gweithredu'r system ADY yn hyrwyddo tegwch a chysondeb ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr. Bydd y data hwn yn helpu i lywio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol i wella arferion a deilliannau plant ag ADY.

Mae rhagor o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Effaith ar y partneriaid cyflenwi

Mae awdurdodau lleol a chynrychiolaeth fach o arweinwyr ysgolion a CADY wedi cyfrannu at ddatblygiad cychwynnol y cynigion ar ddata ADY. Wrth ddatblygu'r data ADY newydd a gynigir, rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion y dylai unrhyw ddata newydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei gasglu gefnogi a gwella dealltwriaeth heb roi beichiau ychwanegol diangen ar y gweithlu. Lle bynnag y bo modd, bydd y newidiadau hyn yn gwella'r broses o gasglu a hunanwerthuso data ar gyfer y sector.

Nod y data a gynigir yw sicrhau proses effeithlon ar gyfer cofnodi a rheoli data'r system ADY, mewn ffordd safonedig, er mwyn cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol. Ei nod yw darparu’r wybodaeth sydd ei hangen ar ysgolion ac awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau, ar gyfer cynllunio strategol, ac i gyflwyno a rheoli'r ddarpariaeth orau bosibl i gefnogi eu dysgwyr.

Nod arall yw sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru wybodaeth i fod mewn sefyllfa well i ddeall effaith y system ADY ar awdurdodau lleol, ysgolion a dysgwyr, er enghraifft trwy ddeall yn well yr adnoddau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr ADY ledled Cymru, y galw a'r capasiti ar draws y system, a dichonoldeb amserlenni statudol a sut maen nhw'n effeithio ar ddeilliannau dysgwyr.

Pan fydd eitemau data newydd yn cael eu cyflwyno, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol y gallai data ychwanegol gael ei gipio yn y dechrau ar gyfer Cydlynwyr ADY neu ymarferwyr ysgol eraill a thimau ADY mewn awdurdodau lleol. Hefyd, mae'n bosibl y bydd rhai eitemau data a gynigir yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion neu awdurdodau lleol gofnodi data ychwanegol a allai effeithio ar lwyth gwaith. Rydym wedi cynnwys cwestiwn am effaith ar y gweithlu yn yr ymgynghoriad a’n bwriad yw defnyddio rhagor o sesiynau ymgysylltu yn ystod y cyfnod ymgynghori i archwilio'r effaith bosibl, opsiynau cyflawni, ac adnoddau i gefnogi'r gweithlu, megis canllawiau a hyfforddiant.

## Costau ac Arbedion

Nid oes disgwyl i'r cynnig arwain at gostau newydd sylweddol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol bach i awdurdodau lleol ac ysgolion yn deillio o'r newidiadau ADY a gynigir, gan ddibynnu ar eu trefniadau contractiol gyda'u cyflenwr Meddalwedd Rheoli Gwybodaeth (MIS) (mae sawl cyflenwr ar waith yng Nghymru). Gall hyn amrywio yn ôl ysgol/awdurdod lleol gan ddibynnu ar eu contractau presennol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i gyflenwyr MIS am newidiadau arfaethedig drwy gyfryngau presennol fel y Fforwm Datblygu Cyflenwyr.

**Systemau**

Mae adrannau 537A a 569(4) o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu'r sail gyfreithlon i Weinidogion Cymru gasglu 'such individual pupil information as may be prescribed'. Yr adrannau yw'r pwerau galluogi ar gyfer y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007 (Atodlen 2, Rhan 1, Paragraff 9A a 15)
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009 (Atodlen 1, Paragraff 4A)

Mae adrannau 114 a 120 o Ddeddf Addysg 2005 yn darparu'r sail gyfreithlon ar gyfer casglu gwybodaeth am y gweithlu ysgolion drwy Reoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth am y Gweithlu Ysgolion) (Cymru) 2017 (Atodlen, Rheoliad 5). Rhaid defnyddio'r wybodaeth a gesglir at 'ddiben cymwys' sy'n cynnwys 'gwerthuso, cynllunio, ymchwil neu ddata ystadegol'.

Bydd angen diwygiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol (Cymru) 2007 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Darpariaeth Amgen) (Cymru) 2009 er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu rhywfaint o'r data ADY a gynigir.

Bydd yr holl newidiadau i ddata ADY yn cael eu hadlewyrchu mewn canllawiau y bwriadwn eu cyhoeddi cyn cyflwyno'r data newydd.

## Adran 8

## Casgliad

Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu set ddata ADY arfaethedig, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol, cynrychiolaeth fechan o ymarferwyr ysgol gan gynnwys Cydlynwyr ADY (CADY) a chynrychiolwyr ysgolion eraill, Estyn ac adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Roedd y gwaith ymgysylltu cychwynnol yn canolbwyntio ar nodi cyfyngiadau'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd a deall pa wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi gwaith monitro a chyflwyno'r system ADY mewn ffordd effeithiol. Cyflwynodd rhanddeiliaid adborth ar oblygiadau ymarferol y newidiadau a gynigir, gan gynnwys dileu meysydd AAA etifeddol a chyflwyno eitemau data sy'n ymwneud ag ADY yn benodol.

Ein bwriad yw ymgysylltu ymhellach ag awdurdodau lleol ac ymarferwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau i brosesau casglu data yn gymesur ac yn ystyrlon, ac nad ydynt yn creu beichiau diangen. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau biwrocratiaeth a sicrhau bod y prosesau diwygiedig o gasglu data yn cefnogi, ac nid yn rhwystro, darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr ag ADY.

Hefyd, rydym yn archwilio opsiynau ystyrlon ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr sydd ag ADY er mwyn gofyn am eu barn ar y newidiadau a gynigir i ddata ADY. Bydd safbwyntiau rhieni a gofalwyr yn cael eu casglu trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus hefyd.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Effaith gadarnhaol fwyaf arwyddocaol y newidiadau a gynigir i'r data ADY yw sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion y data cywir i gyflwyno a rheoli'r ddarpariaeth orau bosibl yn effeithiol er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY i gyflawni eu potensial.

Bydd y data a gynigir yn golygu bod y prosesau casglu diwygiedig yn adlewyrchu'r system ADY ac yn hwyluso dadansoddiad mwy ystyrlon o anghenion a darpariaeth dysgwyr. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu polisïau a chynlluniau strategol mwy effeithiol ar lefel genedlaethol a lleol. Hefyd, bydd yn helpu i sicrhau bod gan ysgolion ac awdurdodau lleol y data sydd ei angen arnynt i gyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel ac i wella'n barhaus.

Effaith negyddol bosibl yw'r perygl o gynyddu llwyth gwaith staff ysgolion ac awdurdodau lleol yn ystod y broses o gyflwyno'r data ADY newydd, a byddwn yn archwilio'r mater hwn ymhellach yn ystod yr ymgynghoriad. Hefyd, mae perygl y bydd canlyniadau anfwriadol yn deillio o gasglu data a allai ysgogi ymarfer. Er enghraifft, mae'n bosibl na fydd casglu data ar gadw at amserlenni statudol ar gyfer CDUau yn ysgogi ansawdd cynnwys CDU.

Rydym yn rhagweld y byddwn yn casglu rhagor o dystiolaeth yn ymwneud ag effeithiau posibl trwy gynnal ymgynghoriad ffurfiol a myfyrio ar yr effeithiau cyn diwygio'r cynigion eto, fel y bo’n briodol.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynigion yn cefnogi amcan llesiant y Rhaglen Lywodraethu sef 'parhau â’n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn

lleihau a bod safonau’n codi’. Hefyd, bydd yn gymorth i ni gyflawni a phrofi'r ymrwymiad i gyflwyno'r Ddeddf ADY.

Mae'r cynigion yn cyfrannu'n gyffredinol at y nodau llesiant, yn benodol at Gymru Lewyrchus a Chymru sy'n Fwy Cyfartal, trwy helpu i gefnogi cymdeithas sy'n galluogi dysgwyr i gyflawni eu potensial waeth beth fo’u hanghenion dysgu ychwanegol neu eu hamgylchiadau. Dylai'r data a gynigir helpu rhanddeiliaid i gyflwyno a rheoli'r ddarpariaeth orau bosibl yn effeithiol i gynorthwyo dysgwyr. Bydd y newidiadau a gynigir i brosesau casglu data ADY statudol hefyd yn hwyluso dealltwriaeth fwy gronynnog a chynhwysol o brofiadau dysgwyr ar draws grwpiau amrywiol. Bydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa well i fonitro sut mae dysgwyr ADY o grwpiau gwahanol sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu nodi a'u cefnogi yn y system ADY.

Hefyd, mae'r cynnig yn cefnogi nod y system ADY o gyflwyno darpariaeth ar gyfer dysgwyr ADY trwy gyfrwng y Gymraeg lle bynnag y bo modd, ac i ddarparu addysg gynhwysol, lle mae pob disgybl yn cael mynediad at gyfleoedd cyffredin mewn ffyrdd sy'n berthnasol i'w hanghenion ac sy'n sicrhau eu bod yn perthyn yn llawn i gymuned yr ysgol. Mae'r rhain yn cyfrannu at nodau Cymru o Gymunedau Cydlynus a Chymru lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu.

Fel y nodwyd eisoes, mae'r cynigion data rydym yn ymgynghori arnynt yn sylfaen i'r dull system o gydweithio, gweithio mewn partneriaeth, a darparu cymorth sy'n cyd-fynd â'r dull o ddefnyddio data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwella addysg. Mae ein cynigion yn cyd-fynd â'r egwyddorion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar y defnydd o ddata ysgolion a dysgwyr i gefnogi dysgu a gwelliant. Credwn y dylai'r data a gesglir gennym fod â diben clir a chefnogi a gwella dealltwriaeth heb roi beichiau ychwanegol diangen ar y gweithlu. Hefyd, dylai wella'r broses o gasglu a hunanwerthuso data ar gyfer y sector.

**Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Y cam nesaf yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddwn yn ystyried yr ymatebion ac yn cadarnhau'r trefniadau ar gyfer y camau nesaf. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno'r newidiadau a gynigir i'r data ADY o fis Medi 2026. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar adborth i'r ymgynghoriad, cwblhau'r newidiadau i'r rheoliadau gwybodaeth (lle y bo angen) a chymhlethdod y newid sy'n ofynnol o fewn systemau MIS.

Ar ôl cyflwyno'r newidiadau, bydd effaith y prosesau casglu data diwygiedig yn cael ei monitro trwy ymgysylltu'n rheolaidd â dadansoddwyr Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a rhanddeiliaid ehangach. Bydd dulliau gwerthuso eraill yn cael eu hystyried er mwyn monitro effaith y data.